

Atal tafod Duw gan Corey Hampton

Roedd ei eiriau'n fy nghlwyfo'n ddwfn, fel cylllell yn tyllu. Pam?

Dw i wedi bod yn ysgrifennu cyfres am ddiwinyddiaeth drwy ymgysylltu â'r cyd-destun Cymreig cyfoes. Yn ysbryd y gyfres, dw i eisiau myfyrio ar rywbeth ddigwyddodd i mi yn ddiweddar, oherwydd dw i heb allu stopio meddwl amdano fo.

Roeddwn i wedi bod yn dysgu sesiwn yn edrych ar yr Eglwys yng Nghymru fel mynegiant Cymreig o'r Eglwys. Buon ni'n olrhain rhywfaint o'r berthynas hir a chymhleth rhwng y ffydd Gristnogol, yr Eglwys, iaith, diwylliant, a hunaniaeth Gymreig.

Dechreuon ni gyda'r seintiau Cymreig fel Dewi, Teilo, a Dyfrig, a'r ffordd y

daeth eu straeon yn rhan o ddiwylliant a hunaniaeth y genedl Gymreig oedd yn datblygu ar y pryd. Fe fuon ni'n edrych ar arwyddocâd y Beibl Cymraeg i hunaniaeth y Cymry drwy waith William Salesbury, William Morgan, a John Davies, Mallwyd. Buon ni'n ystyried sut y gallai'r Eglwys sefydledig yng Nghymru, yn enwedig drwy benodi clerigwyr ac esgobion oedd yn siarad Saesneg, ddod yn 'fam estron' i boblogaeth a oedd i raddau helaeth yn Gymry Cymraeg.

Fe fuon ni'n edrych ar effaith 'Brad y Llyfrau Gleision' ar hunaniaeth y Cymry a'r ffordd roedd yr Eglwys, ochr yn ochr â sefydliadau eraill, yn rhan o brosesau Seisnigeiddio ieithyddol a diwylliannol.

Buon ni'n edrych ar Gwenallt ac Aneirin Talfan Davies, ac ar weithredoedd proffwydol pobl fel yr Archesgobion Glyn Simon, a ymwelodd â Dafydd Iwan yn y carchar, a G. O. Williams, a fu'n cyfryngu rhwng Gwynfor Evans a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystod yr ymgyrch dros sianel deledu Gymraeg.

Ac roedden ni'n dychwelyd dro ar ôl tro at y berthynas rhwng diwinyddiaeth a diwylliant.


Cyfeirais at eiriau Paul Tillich, a ddyfynnwyd gan gyn-ddarlithydd yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont



Mae Corey'n ddarlithydd yng Ngholeg Padarn Sant o dan nawdd yr Eglwys yng Nghymru, ac yn byw yn yr Wyddgrug gyda'i wraig Catrin a'i feibion Peris, Lleu a Gwilym. Mae'n hanu o Tennessee yn yr Unol Daleithiau ac wedi dysgu Cymraeg fel ail iaith

Steffan, yn dilyn dathlu 400 mlynedd ers cyfieithiad William Salesbury o'r Testament Newydd, pan gynhaliwyd gwasanaeth i gofio'r garreg filltir hon yn hanes Cristnogaeth yng Nghymru bron yn gyfan gwbl yn Saesneg: 'Every religious act, not only in organised religion, but also in the most intimate movement of the soul, is culturally formed. The fact that every act of man's spiritual life is carried by language, spoken or silent, is proof enough for this assertion. For language is the basic cultural creation.'

Erbyn hyn, roeddwn i'n meddwl fy mod wedi gwneud awgrym digon argyhoeddiadol dros bwysigrwydd canolog y Gymraeg i addoliad a bywyd yr Eglwys yng Nghymru.



Yna gofynnodd myfyriwr gwestiwn a'm clwyfodd yn ddwfn:

'If everyone speaks English, should we not do everything in English? Isn't the Gospel more important than language?'

Dw i wedi bod yn troi'r geiriau hynny drosodd yn fy meddwl ers hynny.

Pam wnaethon nhw fy mrifo gymaint?

Dw i'n meddwl mai rhan o'r ateb yw nad geiriau un unigolyn yn unig ydyn nhw. Maen nhw'n mynegi teimlad sy'n eithaf cyffredin mewn diwylliant Cymreig sy'n dod yn fwyfwy Seisnigedig: mai rhywbeth ymylol yw iaith yn y pen draw, mai ffordd o gyfathrebu yn unig yw'r Gymraeg, ac unwaith y gall pawb gyfathrebu yn Saesneg, nad oes unrhyw reswm cryf dros gadw'r iaith arall.

Ac eto, o safbwynt diwinyddol, dw i'n gweld y ddadl honno'n gwbl annigonol. Mae'n disgyn yn fflat.

Nid yw'r Efengyl yn cael ei chyfleu mewn rhyw ffurf haniaethol, ddi-gorff. Mae hi bob amser yn cael ei derbyn a'i phrofi drwy bobl benodol, lleoedd penodol, hanesion penodol ac ieithoedd penodol.

Dyna'n union y pwynt mae Tillich yn ei wneud. Mae pobl yn cyfarfod â Duw drwy'r ffurfiau diwylliannol sy'n ffurfio'u bywydau. Nid cynhwysydd niwtral yw iaith, lle rydyn ni'n arllwys cynnwys diwinyddol iddo. Mae iaith yn siapiro'r ffordd rydyn ni'n dychmygu, yn cofio, yn gweddio, yn caru, yn galaru a chyfarfod â Duw.

Dw i ddim yn ymwneud â Duw yn union yr un ffordd yn Saesneg ag ydw i yn Gymraeg. Nid am fod un iaith rywsut yn fwy sanctaidd na'r llall. Ond am fod iaith yn rhan annatod o bwy ydw i. Mae'r Gymraeg yn cario atgofion, perthnasoedd, hanes, a ffordd benodol o fod yn y byd. Mae hi wedi dod yn rhan o iaith fy enaid fy hun.

Felly, pan mae rhywun yn dweud, 'Isn't the Gospel more important than language?', dw i'n dechrau meddwl tybed a yw'r cwestiwn hwnnw'n creu gwrthwynebiad ffug.


Pam mae'n rhaid i ni ddewis?

Pam na allwn ni gyfarfod ag Iesu yr Efengyl drwy gyfrwng y Gymraeg?

Yn wir, os yw'r ymgnawdoliad yn golygu unrhyw beth, onid yw'n rhaid i'n ffydd yn Iesu fod ynghlwm wrth yr hyn sy'n benodol am ein bodolaeth ni? Nid yw Duw yn ein hachub rhag hyn; mae Duw yn mynd i mewn iddo hefo ni.

Arhosodd rhan arall o'r sgwrs gyda fi hefyd. Awgrymodd y myfyriwr y bydd pawb, yn y dyfodol, efallai'n siarad yr un iaith, ac y byddai hynny'n beth da oherwydd bod gwahanol ieithoedd, yn y pen draw, yn rhwystr i gyfathrebu.

Doeddwn i ddim yn gallu peidio â meddwl am stori Tŵr Babel yn y Beibl.



Tŵr Babel, Meister der Weltenchronik, Parth Cyhoeddus, via Wikimedia Commons

Mae stori Genesis, wrth gwrs, yn llawer mwy cymhleth na stori syml am darddiad gwahanol ieithoedd. Ond mae'r awydd am unfurfiaeth ieithyddol, y freuddwyd y gallai dynoliaeth ddod yn un drwy fod yn union yr un fath, yn teimlo'n hynod berthnasol.

Ac yna mae'r Pentecost. Yn y Pentecost, nid yw Duw yn goresgyn gwahaniaethau ieithyddol drwy wneud i bawb siarad yr un iaith. Mae'r Ysbryd yn galluogi pobl i glywed Gair Duw yn eu hieithoedd eu hunain.

Nid yw'r gwahaniaeth yn cael ei ddileu. Yn hytrach, mae'n cael ei fyw.

Dyweddodd Gwenallt unwaith fod y Gymraeg yn 'un o dafodieithoedd Datguddiad Duw'. Mae hwn yn ddatganiad diwinyddol rhyfeddol. Os yw'r Gymraeg yn iaith y mae pobl yn cyfarfod â Duw drwyddi, pam fydden ni eisiau atal tafod Duw?

Meddyliau amrwd yw'r rhain. Efallai mai dyna sut y dylen nhw fod.

Nid yw diwinyddiaeth yn dechrau gyda myfyrdod pell a gwrthrychol. Mae'n dechrau gyda chlwyf. Nid tawelu'r ymateb i hwnnw yw'r pwynt, ond mynd i mewn iddo, gofyn pam mae'n brifo, beth mae'n ei ddatgelu, a beth allai ei ddysgu i ni am Dduw, amdanon ni ein hunain, ac am y byd rydyn ni'n byw ynddo.

Dw i'n meddwl mai dyma ffordd arall, fwy agored i niwed, o wneud diwinyddiaeth gyd-destunol.

Nid dechrau gyda diwinyddiaeth sydd wedi'i thynnu allan o'i chyd-destun ac yna ei chymhwyso i Gymru, ond dechrau gyda Chymru, gydag iaith, lle, hanes, sgwrs, hyd yn oed eiliad o rwystredigaeth, ac yna gofyn pa ddiwinyddiaeth sy'n dod i'r amlwg pan ydyn ni'n cymryd y cyd-destun hwnnw o ddifrif.

Dw i'n angerddol am y Gymraeg oherwydd ei bod hi'n fwy na ffordd o gyfathrebu. Mae hi'n rhodd. Mae hi wedi fy newid o'r tu mewn allan. Mae hi wedi rhoi ffordd arall i mi o weld a byw yn y byd. Mae hi wedi fy nhynnu i mewn i fywyd y Duw Trindodaidd oherwydd, i mi, mae hi wedi dod yn un o'r ffyrdd mae Duw yn siarad.

Felly, pan dw i'n ysgrifennu am ddiwinyddiaeth yn Gymraeg, dw i ddim yn gwneud hynny er mwyn bod yn anodd. Dw i ddim yn gwneud hynny er mwyn gwneud datganiad gwleidyddol. Dw i'n gwneud hynny oherwydd bod hynny'n dda ynddo'i hun.

Felly, efallai y bydd y geiriau hynny'n parhau i'm poeni am sbel. Am y tro, dw i eisiau eu gadael nhw yma, nid fel casgliad, ond fel ffordd arall i mewn i'r stori am ddiwinyddiaeth gyd-destunol Gymreig rydw i'n dal i geisio'i darganfod.

Encil Genhadol y De



Chwiriwydd Llanddarog a Nantgaredig a ddarparodd ar ein cyfer mor wych yn y ganolfan newydd.

Cynhaliwyd yr Encil Genhadol ddydd Iau, 24 Medi, yn neuadd Llanddarog. Roedd y lleoliad yn hwylus ar gyfer teithio o'r tair Henaduriaeth a'r neuadd newydd yn cynnig cyfleusterau ardderchog a golygfa braf dros Gwm Gwendraeth.

Yr arweinydd am y dydd oedd Thomas Ellis Williams, sydd wedi ei benodi'n arweinydd ar Gapel y Crwys, Caerdydd. Dewisodd y testun o Efengyl Mathew, Pennod 9: 'Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin'.

Croesawyd pawb gan y Llywydd, Cynthia Edwards, ac yna, yn dilyn cyd-ddarllen y Datganiad Cenhadol, cafwyd defosiwn byr o dan arweiniad y Llywydd. Darllenwyd yr adnoddau o Efengyl Mathew sy'n ymddangos o dan y pennawd 'Tosturi Duw'.

Roeddent yn arwain yn addas at gyflwyniad y siaradwr. Yn ei gyflwyniad cyfeiriodd Thomas at englyn yn sôn am dŵr Eglwys Llanddarog yn codi i'r nef. Yn yr un modd mae Iesu yn gofyn i ni ddyrchafu ein llygaid gan edrych tu hwnt i'r amlwg. Wrth fynd ar daith gydag Iesu i Samaria at y ffynnon, ymlaen i'r pentrefi, heb osgoi'r lleoedd anodd a digroeso, gwelwn dosturi Iesu tuag at y rhai yr oedd yn eu cyfarfod gan ddangos cariad a chynnig gobaith ac iachâd.

Pan awn ninnau ar daith gwelwn fod y cloddiau'n rhwystro golygfa

o'r meysydd. Ond rhaid i ni godi ein golygon tu hwnt iddynt gan gofio mai meysydd a chynhaeaf Duw ydynt a bod gennym ninnau gyfran yn y cynaeafu.

Wrth gyflwyno'r llyfr thema *Gras ein Harglwydd Iesu Grist*, gofynnodd Sarah Morris i ni ganolbwyntio a myfyrio ar yr adnoddau yn y darlleniadau dyddiol, yr astudiaeth Feiblaidd a'r prosiectau, gan ofyn i ni weddio dros y gwaith mewn gwledydd tramor ac i ymestyn allan yn ein tosturi a'n gwasanaeth.

Yn y prynhawn daeth Thomas â ni yn ol i'n bywyd a'n gwaith yn ein heglwysi. Wrth i ni godi ein golygon tu hwnt i'r hyn sy'n amlwg, cyfeiriodd at y gwaith sydd yn cael ei gyflawni yn yr eglwysi – yn bueilio, yn gwasanaethu ac yn dangos ffydd ar waith. Trwy nerth yr Ysbryd Glân cawn ein galw i ddyrchafu ein golygon a dod yn rhan o gynhaeaf Duw fel bod mur y capel yn troi'n ffenest sydd yn edrych allan ar y byd.

Ar ddiwedd y dydd diolchwyd yn gynnes i Thomas am ein harwain ac am ein tywys ar daith gyda'r Iesu i werthfawrogi bendithion cynhaeaf Duw a'n gwahodd i ddychwelyd i'n heglwysi yn llawn ffydd a gobaith wrth i ni dystio i newyddion da Efengyl yr Arglwydd Iesu.

Eleri Davies

Dysgu
Cymraeg

Dwyieithrwydd a Dysgwyr

Canllawiau i gefnogi
addoliad dwyieithog a
dysgwyr

Adran newydd ar wefan
Cristnogaeth.cymru :

Canllaw i
Addoliad Dwyieithog:

Mae'r canllaw ymarferol hwn yn cynnig syniadau ac awgrymiadau i eglwysi sy'n dymuno datblygu addoliad dwyieithog sy'n groesawgar, yn gynhwysol ac yn ystyrlon i bawb.

Mae'n cynnwys cyngor ar gynllunio gwasanaethau, dewis emynau, darlleniadau Beiblaidd, gweddïau a phregethu, ynghyd â rhestr wirio ddefnyddiol. Mae'r canllaw ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ceir hefyd dair taflen o adnoddau dwyieithog i helpu pobl sy'n dysgu Cymraeg i gymryd rhan mewn gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r ddwy daflen Addoli yn cyflwyno geirfa ac ymadroddion defnyddiol ar gyfer gwasanaethau, gan gynnwys cyfarchion, emynau, cyhoeddiadau, gwyliau Cristnogol ac arwain addoliad. Mae'r daflen Gweddïau yn cynnwys gweddïau a bendithion cyfarwydd, gan gynnwys Gweddï'r Arglwydd, i helpu dysgwyr i weddio a chymryd rhan yn yr addoliad yn Gymraeg.

Y gobaith yw y bydd yr adnoddau hyn yn magu hyder dysgwyr ac yn gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy hygyrch a chroesawgar i bawb.

Gellir lawrlwytho'r adnoddau hyn, a mwy o wefan

<https://cristnogaeth.cymru/dwyieithrwydd-a-dysgwyr/>



Deallusrwydd Artiffisial (AI): sut ddylen ni ymateb?

Yng ngwanwyn 2025, canfu Arolwg o Agweddau Byd-eang fod 76% o oedolion mewn 25 gwlad ar draws y byd yn teimlo pryder am y defnydd cynyddol o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI / DA). Er hynny, mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn blaenoriaethu buddsoddi mewn AI. O Alexa a Siri i ganeuon a gynhyrchwyd gan AI a *deepfakes* o enwogion, a'r cynnydd mewn ymosodiadau seiber, mae'n annhebygol y gwelir lleihad ym mhresenoldeb AI yn ein cymdeithas yn y dyfodol agos.

Sut ydyn ni'n teimlo am hyn ... fel unigolion, fel credinwyr, fel eglwysi?

Mae'n gwestiwn pwysig i'w ofyn yn yr oes sydd ohoni, cwestiwn nad ydym bob amser yn teimlo caniatâd i'w ofyn, a'r byd o'n cwmpas 'jest yn cymryd yn ganiataol' gyflymdra eithafol datblygiad AI. Mae gan lawer yn ein heglwysi hefyd ofnau gwirioneddol a dilys am ddatblygiad AI, ac yn galw am bwyll wrth symud ymlaen, gan weld peryglon cymdeithasol, personol ac ysbrydol posib.

Mae eraill yn rhag-weld potensial cadarnhaol AI, a hyd yn oed yn credu y gall datblygiadau technolegol ein cynorthwyo i gyflawni'r 'Comisiwn Mawr' yn ein hoes ni! Enghraifft o'r math hwn o ddatblygiad yw adroddiadau diweddar gan Wycliffe Bible Translators am gynnydd anhygoel o ran y gwaith o gyfieithu'r Beibl ledled y byd erbyn hyn: i ieithoedd lleiafrifol nad oeddent cyn hynny'n meddu ar y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Mae hyn i raddau helaeth o ganlyniad i gymorth technoleg cyfieithu AI. Fodd bynnag, mae hyd yn oed y rhai sy'n croesawu'r datblygiadau hyn yn rhybuddio bod angen parhau i fod yn ofalus iawn gyda'n defnydd o AI a bod angen

goruchwyliaeth ddynol a doeth (er enghraifft, mae Wycliffe yn pwysleisio pwysigrwydd cyfieithwyr proffesiynol dynol i oruchwyllo'r holl broses).

Oes lleisiau eraill o'n cwmpas all ein helpu ni fel Cristnogion i feddwl yn ddoeth ac yn Feiblaidd am dechnoleg AI? Oes wir.

Yn ddiweddar, croesawodd Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, y Parch. Ddr Sally Nelson i gyflwyno darlith flynyddol Edwin Stephen Griffiths. Mae Sally yn weinidog gyda'r Bedyddwyr ac yn ddarlithydd academiaidd, â diddordeb ymchwil mewn anthropoleg ddiwinyddol. Gofynnodd y cwestiwn y gallai llawer ohonom fod yn ei ofyn mewn perthynas ag AI: "Ydw i'n eich galw'n Was neu'n Ffrind?" ... ac a oes lle i anghytundeb? Ni roddodd atebion syml, du a gwyn, i ni – ond cynigiodd rai ystyriaethau allai ein helpu yn ein ffordd ymlaen.

Yn gyntaf, y cwestiwn: 'beth yw person?' Mae llawer o'r ofnau ynghylch Deallusrwydd Artiffisial yn ymwneud â'r cwestiwn a all, neu a *ddylai*, AI, gymryd lle pobl, boed mewn swyddi, neu hyd yn oed wrth ysgrifennu pregethau (mae'n digwydd!). Tynnodd Sally ein sylw at loan 15:15 pan ddywed Iesu, 'Nid yw'r gwas yn gwybod beth y mae ei feistr yn ei wneud, [ond] yr wyf wedi eich galw yn gyfeillion'. Atgoffodd Sally ni ein bod wedi ein creu ar ddelw Duw, ac fel rhan o hynny rydym yn cael ein gwahodd i gymdeithas ag Ef. A allai AI fyth ddod yn fwy na gwas – a allai fyth fod yn ffrind i ni? Barn Sally yw hyn: er y gall AI ddynwared syniadau ac ieithwedd ddynol yn wych, rhodd gan Dduw yn unig yw dynoliaeth a natur 'person'.

Yn ail, ein defnydd ymarferol o AI. Rhybuddiodd Sally fod yna gwestiynau moesol y dylid eu gofyn wrth symud ymlaen. Er y gellir cyflawni pethau gwych gyda chymorth AI (e.e. mewn

meysydd meddygol), cyngor Sally oedd y byddai'n ddoeth parhau i ofyn cwestiynau beirniadol am berthynas ein cymdeithas ag AI, yn ogystal â'n perthynas ag ef fel credinwyr ac eglwysi. Ar lefel bersonol, er enghraifft, gall defnyddio 'bots' sgwrsio AI gynyddu dibyniaeth ar atebion cyflym a hawdd, gan effeithio ar ddatblygiad meddyliol a beirniadol unigolyn, yn enwedig plant ac ieuenctid. Ar lefel gymdeithasol, dim ond data sydd eisoes ar gael y mae peiriannau chwilio sy'n cael eu gyrru gan AI yn medru eu sganio, gan dueddu yn aml iawn i ddefnyddio'r ffynonellau mwyaf poblogaidd. Pa naratifau y gallai hyn eu bwydo yn ein cymdeithas a'n heglwysi? Felly, roedd Sally yn ein gwahodd fel credinwyr i fod yn graff wrth ystyried y materion hyn.

Cyflwynodd Sally hefyd bedair enghraifft o ystyriaethau moesol a allai ein helpu wrth ddechrau'r broses hon. Y rhain yw:


- awdurdod: e.e. gwybodaeth gan bwy sy'n cael ei blaenoriaethu yn ein defnydd o AI?
- gwirionedd: oes potensial i wirionedd gael ei wyrddroi?
- adnoddau: pa adnoddau sydd eu hangen i gynnal AI?
- perthynas: sut allai rhai perthnasoedd ddioddef wrth i ni droi at AI?

Er ei bod hi'n anodd penderfynu weithiau beth yw 'da' a 'drwg' mewn perthynas â'r defnydd o AI, mae Sally yn ein hannog, fel unigolion a chymunedau o gredinwyr, i ddatblygu 'moeseg y galon' wrth ei ystyried, gyda chymorth yr Ysbryd Glân a Gair Duw. *Galwad i weddio a dirnad gyda'n gilydd yn wir.*

Sioned Graves

(Cyhoeddwyd gyntaf yn *Y Negesydd*, Haf 2026)

Ysbrydoliaeth Bryniau Casia



Teyrnged yr awdur i'w rieni a fu'n genhadon ar Fryniau Casia mewn cyfnod o drobwynt mawr yn hanes India yw'r gyfrol fechan *Bryniau Gobaith*.

Drwy gyfrwng llythyrau teuluol, atgofion personol a ffotograffau, adroddir hanes dau genhadwr ifanc, y Parch. Brynmor a Mrs Beryl Jones, a'u gwaith yng ngogledd-ddwyrain India yng nghanol y 1940au.

Cawn gip ar y cydweithio hyfryd rhwng Brynmor a'r gweinidogion lleol fyddai'n ei dywys ar ambell daith genhadu:

Roedd Pastor Korin wedi trefnu oedfa fedyddio yn Nongrymai, ac yn rhoi'r anrhydedd i mi fedyddio. Rhwng ugain a phump ar hugain o fabanod, a boned wen gan bob un. Ar ôl i mi fedyddio'r rhain, dyma hen ŵr yn ei wythdegau yn dod ymlaen a mynd ar ei liniau, er mwyn imi gyffwrdd ei dalcen â'r dŵr o bowlen bridd, yn enw'r Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân.

Byddai rhai o'r teithiau'n golygu ymweld â phentrefi go anghysbell:

Rhoddwyd ar ddeall inni mewn amryw o bentrefi na fu yr un cenhadwr yno o'r blaen ... Yn wir, oni bai bod trigolion y gwahanol bentrefi hyn wedi gwneud llwybr eu hunain inni am rai milltiroedd drwy'r jyngl, dichon na fuasem ninnau chwaith wedi gallu ymweld.

Mwynhawn ninnau'r hiwmor wrth i'r cenhadwr sôn am ei ymdrech i gynefino â marchogaeth merlyn fel dull o deithio i'r ardaloedd mwyaf diarffordd – weithiau am bellter o ddeng milltir ar hugain y dydd. Dro arall, byddid yn llogi cerbyd, ond byddai hwnnw'n methu cyrraedd pen y rhiwiau mwdlyd!

Methodd y car a logwyd gennym â chyrraedd pen un allt serth ... ac wrth y gwaith o gael y car i ben allt arall, cawsom ein dal mewn glaw trwm, tebyg i'n glaw Awst ni, a chan na feiddiem fynd i'r car rhag iddo lithro'n ôl ar yr allt, buan y cawsom ein gwlychu at y croen.

Adroddir am un siwrnai herfeiddiol iawn, pan fu'n rhaid llogi cwch i fynd i lawr afon lifeiriol am fod y monsŵn cynnar wedi achosi tirlithriadau, wedi ysgubo cledrau'r rheilffordd ymaith, ac wedi cau'r lonydd. Yn ôl wyres a gofnododd yr hanes:

Buont yn symud i lawr yr afon am ddau ddiwrnod a dwy noson. Yn nhywyllwch y nos, yr unig oleuni wrth geisio llywio'r cwch heibio'r trobyllau gwyllt oedd golau lantern ar flaen y cwch. Ac wrth nesu at y dyfroedd mwyaf cynddeiriog, byddai'r llywiwr yn mynd ar ei liniau i weddio ar Ala!


Ar ôl llwyddo yn y diwedd i gyrraedd pen eu taith yn ddiogel, rhaid oedd mynd i'r afael yn syth â llanastr y llifogydd, a'r difrod a wnaed i'r cartrefi lleol a'r capel:

Gan i'r dŵr yn y capel godi cyn uchod â hanner ffordd rhwng llawr y pulpud a'r astell, roedd golwg dorcalonnus ar yr addoldy wedi i'r llifogydd gilio. Fodd bynnag, gofynnwyd am help y bobl ifanc, a buan y cafodd y meinciau a'r pulpud gôt hardd o farnais.

Yn ogystal â'r treialon, bu sawl achos i ddathlu, fel pan anwyd baban cyntaf y teulu – merch fach a enwyd yn Annwen.

Cyfeirir hefyd at rai o ddigwyddiadau gwleidyddol mawr y cyfnod:

Symudasom i Sylhet ar 15 Awst 1947, sef y diwrnod y cafodd yr India ei hannibyniaeth ac y rhannwyd y wlad yn India a Phacistan ... Bûm yn gyfrifol am y gwaith cenhadol yno o



ganol 1947 tan ganol 1948, ac yno yr oeddwn pan saethwyd Gandhi.

Dyddiau anodd iawn oedd cyfnod y ddau yn Sylhet. Roedd y llywodraethwyr newydd yn hawlio eiddo'r Genhadaeth – yn dir, yn adeiladau ac yn gartrefi – ac roedd hyd yn oed arweinwyr yr eglwysi Cristnogol lleol yn amharod i gydweithio â'r ddau genhadwr.

Bu un digwyddiad erchyll ar Wastadedd Sylhet, pan lofruddiwyd llanc ifanc am resymau sectyddol, a thafu ei gorff ar dir y Genhadaeth. O ganlyniad, bu'n rhaid i Brynmor drefnu i gael ei warchod gan yr heddlu, a gorfu i'w wraig a'u geneth fach ffoi i Shillong ym Mryniau Casia.

Yn fuan wedyn, cafodd Brynmor ei daro'n wael iawn, a bu'n rhaid iddo dreulio chwe wythnos yn yr ysbyty. Yn ogystal â hynny, bu farw ei dad, a siom enbyd iddo oedd methu bod yn yr angladd am na chafodd wybod am y farwolaeth mewn da bryd.

Pryderai hefyd am sefyllfa ei fam yng nghyfraith: roedd hithau wedi colli ei gŵr ychydig fisoedd yn unig cyn i Beryl ac yntau hwylio i'r India. Fodd bynnag, lleddfwyd llawer ar y profiadau chwerw drwy'r llawenydd digyffelyb a brofodd y ddau wrth fudo o Wastadedd Bengal i Fryniau Casia. Roedd Beryl yn ei helpfen yn gweithio gyda'r mamau a'r plant yno, a bu'r cyfnod o genhadu ymysg pobl hawddgar y Bryniau yn ysbrydoliaeth i Brynmor am weddill ei oes.

Mae yna ddiwedd glo llawen arall i'r stori, oherwydd ar derfyn y gyfrol cawn hanes yr awdur yn teithio i Fryniau Casia ac yn llwyddo nid yn unig i ddod o hyd i Kong Norah, y ferch ifanc a roddai help llaw i'w fam i ofalu am ei thri phlentyn, ond hefyd i aduno'r ddwy â'i gilydd ar ôl bwlch o dros hanner canrif.



Meithrin calon ddi-drais

Cyfres o chwe astudiaeth gan **Rosa Hunt** ac **Ed Kaneen**, Caerdydd, sy'n ystyried y cwestiwn:
Sut gallwn ni feithrin calon ddi-drais?

Calon ddi-drais 1

Dyma'r gyntaf mewn cyfres o chwe astudiaeth sy'n ystyried y cwestiwn: sut gallwn ni feithrin calon ddi-drais? Mae llawer ohonom yn edmygu arwyr fel Desmond Tutu, Martin Luther King neu Rosa Parks. Mae eu dewrder nhw'n amlwg – ond y tu ôl i'w dewrder mae disgyblaeth oedd wedi'i meithrin yn fwiadol, disgyblaeth o feithrin calon ddi-drais.

Mae Iesu wedi rhoi canllawiau clir i ni ynglŷn â sut gallwn ni hefyd ddatblygu cymeriad sy'n ddigon dewr i wrthsefyll anghyfiawnder ond sydd ar yr un pryd yn ddigon mawr i beidio ag ateb trais gyda thrais, sarhad â sarhad. Mae'r rhan fwyaf o'r canllawiau hyn yn ei Bregeth ar y Mynydd, ac felly, yn y gyfres hon, byddwn yn edrych ar rannau o Efengyl Mathew, a hefyd ar weithiau cyfoes gan awduron heddiw.

Mae ysgolheigion a sylwebyddion Cristnogol wedi bod yn trafod y cwestiwn hwn ers canrifoedd. Yn y bedwaredd ganrif dywedodd Awstin Sant mai pedwar cariad sydd. Yr un pwysicaf yw caru Duw, ond mae caru ein hunain yn dod yn ail. Wedyn, caru pobl eraill, ac yn olaf caru ein cyrff ein hunain.

Darlleniadau:

Mathew 22:34–40
a Lefiticus 19:17–18

Cwestiynau

- Sut mae'r gorchymyn i garu eich hun yn gwneud i chi deimlo?
- Ydych chi'n caru eich hun?

Dechreuwn heddiw gyda gorchymyn Iesu i garu – ein hunain!

Ar y llaw arall, yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, nid oedd Calvin a Luther yn credu bod caru ein hunain yn beth da. Roedden nhw'n gweld cysylltiad clir rhwng caru ein hunain

a phechod. Yn y ddeunawfed ganrif, dywedodd Immanuel Kant fod caru ein hunain yn hunanol ac felly fod dyletswydd arnom i gywiro hynny, gan garu ein cymydog. Ac ychwanegodd Kierkegaard: mae caru ein cymydog yn golygu gwadu ein hunain.

Yn y ddwy ganrif ddiwethaf mae'r farn academiaidd wedi newid. Dywedodd y seicolegydd Erich Fromm nad ydy caru ein hunain yr un fath â bod yn hunanol. Ac rydyn ni wedi elwa hefyd o ddiwinyddion ffeministaidd fel Elisabeth Moltmann-Wendel. Nid balchder neu fod yn hunanol yw prif bechod llawer o bobl, meddai hi, ond y ffaith nad ydyn nhw'n gallu derbyn eu hunain. Oherwydd bod Duw wedi ein derbyn ni yn ddi-amod, dylen ni garu ein hunain (gweld ein hunain trwy lygaid Duw). Felly – y broblem yw nad ydyn ni'n caru ein hunain ddigon!

Yn ei lyfr enwog *Nonviolent Communication*, mae Marshall B. Rosenberg yn pwysleisio bod caru ein hunain yn rhan annatod o ddatblygu calon ddi-drais sy'n ddigon mawr i ateb casineb gyda chariad di-ofn. Os nad ydyn ni'n caru ein hunain ddigon i dderbyn bod ein teimladau a'n hanghenion ni'n bwysig, dydyn ni ddim yn gallu cymryd cyfrifoldeb am ein teimladau. Rydym yn dechrau beio eraill am y ffaith ein bod ni'n teimlo'n wael.

Enghraifft:

Yn fy eglwys, dwi'n helpu mewn Canolfan Glyd ar gyfer pobl ddigartref, ac ar ôl dwy awr dwi wedi blino! Rydym ar fin cau'r drysau pan ddaw dyn i mewn ar y munud olaf, ac yn anghwrtais yn mynnu y dylwn i roi rhywbeth i'w fwyta iddo. Dwi'n teimlo fy hun yn mynd yn grac ac yn dweud wrtho ei fod yn rhy hwyr. Mae'r dyn yn ymateb gan fy nghyhuddo o beidio â bod yn Gristion go iawn: "Call yourself a Christian? I'm starving!"


Cwestiwn:

Sut gallai gorchymyn Iesu i garu fy hun fy helpu i gyfathrebu â'r dyn yma mewn ffordd fwy adeiladol a chadarnhaol?

Gwedd:

Helpa ni i ddysgu drwy ein geiriau a'n gweithredoedd beth mae'n ei olygu i'th garu di, i garu ein cymdogion ac i garu ein hunain. Ti yw ein cymorth a'n hesiampl ni, Arglwydd Iesu Grist, ffynhonnell pob cariad. Amen.

Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau
Maes Llafur i oedolion 2025/26



Gydol y flwyddyn a aeth heibio bu Siân Meinir yn paratoi myfyrdod wythnosol ar ein cyfer yn *Cenn@d*, yn seiliedig ar y merched yn y gyfrol *Codi'r Llen*, sef hanes deugain o ferched yn yr Hen Destament. Bellach llwyddwyd i bortreadu pob un o'r gwragedd hynny yn eu tro, ac mae ein diolch i Siân yn un diffuant iawn. Llwyddodd i bortreadu'r gwragedd hyn mewn ffordd real a byw, a diolchwn iddi am ei gwaith arwrol. Dymunwn yn dda iddi ar ddechrau ei gweinidogaeth newydd fel gweinidog yn ardal Penarth a'r Barri.



Caniadaeth y Cysegr
Sul, 1 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp
Hoff emynau Capel y Nant, Clydach

Oedfa Radio Cymru
Sul, 1 Tachwedd, am 12:00yp
Gwasanaeth o dan arweiniad Ariadne van den Hoff, Llundain

Cyhoeddiadau Radio a Theledu, Sul, 1 Tachwedd 2026

S4C
Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 1 Tachwedd am 7.30yh
Hoff Adnodau'r Cymry
Nia Roberts sy'n sgwrsio gydag Eurig Salisbury, Betsan Powys a Mererid Mair, sy'n rhannu am eu hoff adnodau. Daw'r canu mawl o Gapel y Bedyddwyr, Blaenffos.



‘Man dall’

Dyna, medde’r geiriadur, y cyfieithiad Cymraeg am ‘blind spot’, ymadrodd sy’n cael ei ddefnyddio lawer mwy yn y Saesneg nag yn y Gymraeg. Y mae iddo, wrth gwrs, ystyr dechnegol: rhyw nam sy’n bodoli yn y llygaid, ond mae iddo ystyr arall hefyd, mwy idiomatig, a dyna’r ystyr yn yr erthygl hon.

Mae un enghraifft ohono yn fy wynebu i wrth imi sgrifennu hwn. Y llynedd roedd hi’n ganmlwyddiant y traddodiad drama yn y Sarnau. Ac y mae yna lun mawr o fy mlaen o gwmni drama 1925 sydd i fod i gael ei fframio a’i osod yn y Neuadd, hynny pan fydd enwau’r cymeriadau wedi eu hysgrifennu’n gain oddi tano. Gen i mae’r cyfrifoldeb o’i roi i’r person sy am wneud y gwaith a’ morol am ei fframio. Rwy’n gweld y llun bob dydd, rwy’n gweld y person sy am wneud y gwaith yn eitha aml, ond dyw fy meddwl byth yn dod â’r ddeubeth at ei gilydd; mae gen i ryw fath o ‘fan dall’ am y peth. Dwi byth yn cofio amdano pan welaf y person. Does gen i ddim esboniad pam; dwi ddim yn colli fy nghof, er fy henaint!

Yna, mae gen i hefyd fan dall cyn belled ag y mae rhai pobol yn y cwestiwn. O’r rhai rwyf yn eu hadnabod, rwy’n cofio enwau bron pob un. Bron, dwi’n ddweud, achos y mae yna ambell un y byddaf yn cael traferth yn barhaus i gofio’i enw a dim ond ei enw. Un prifathro: rwy’n cofio pa ysgolion y bu ynddynt, lle mae o’n byw a beth yw enw ei wraig. Ond y fo! Na. Ac o’r holl afonydd yng Nghymru y gallaf ei henwi, fedra i byth gofio enw’r afon yng nghanolbarth Cymru y lladdwyd Llywelyn ger ei glan.

Oes yna ryw esboniad seicolegol am hyn oll, tybed? Anodd gen i gredu. Pe bai rhyw brofiadau annifyr neu atgas gefais i’n gysylltiedig â’r rhain, yna gallwn ddeall. Fe all y meddwl,

er mwyn ein hamddiffyn, ddileu o’r cof rai profiadau annifyr, medden nhw, gan y gallai eu cofio a’u cario efo ni’n barhaus fod yn ormod inni. Rhai pethau anffodus y mae eu cofio yn ormod o faich i’n cydwybod hefyd, efallai.

Ond beth sydd a wnelo hyn oll ag erthygl i *Cenn@d*? Cwestiwn da. A ninnau’n arddel Cristnogaeth, mi ddylen ni, debyg, fod yn gofidio am bob arwydd ac enghraifft o bechod sy’n bodoli, a pheidio gobeithio am ryw fan dall i ddileu’r cyfan o’n cof.


Beth am ystyried, felly, a chofio drwy’r amser y plant gafodd eu cam-drin gan eu rhieni, y rhai laddwyd ar ôl eu cam-drin yn y modd mwya erchyll. Ystyriwn y rhai sy’n byw ar gyffuriau mewn hofelau o dai: na, nid y trueiniaid sy’n gaeth i gyffuriau yn unig a olygaf, ond y rhai y mae hyn oll yn ffordd o fyw iddyn nhw. Ystyriwn y plant sy’n ymosod ar blant eraill efo cyllyll, y llofruddio sy’n digwydd mewn dinasoedd bron yn feunyddiol, y drygioni sy’n digwydd dan lenni’r nos yn ein trefi. Gallwn fynd ymlaen ac ymlaen.



Ac yna, ar y lefel ryngwladol, oni welsom ddydd ar ôl dydd y dinistr erchyll yn Gaza gyda phob tŷ a thwlc ac adeilad wedi ei wastatáu i’r llawr gan Netanyahu a’i fyddin; y llanast yn y Dwyrain Canol, heb sôn am y miloedd plant a laddwyd yn yr ymgyrchoedd; yr ymosod nosweithiol ar ddinasoedd lwcráin, y lladd anystyriol yn Tehran

a chwant Putin am fwy o rym a mwy o dir. Fel tase hynny ddim yn ddigon, pw y na chlywodd hyd syrffed am Epstein a’i weithredoedd ffaidd a’i ffrindiau. A dowch yn ôl adre, i’r Gymru Gymraeg, os yw’n bod bellach. Clywais yn ddiweddar am un ysgol uwchradd, a dim ond un enghraifft o laweroedd ydyw, mae’n siŵr, lle mae’r staff dysgu yn gorfod cadw’r toiledau dan glo a mynd gyda’r disgyblion yno pan fo angen rhag iddyn nhw ddifrodi’r lle. Hyn yn rhoi gormod o bwysau ar athrawon, ac athrawon o’r herwydd yn mynd yn brin ac yn gwaethygu’r broblem. Diddiwedd, yn tydi!

Onid yw’n fendith fod gennym yn ein cyfansoddiad fan dall i’r problemau hyn y rhan fwyaf o’r amser i’n cadw rhag digalonni a gwallgofi’n llwyr? Onid ffordd o waredigaeth ydyw i’n cadw’n gall? Neu oes ffordd arall i’r Cristion?



Flynnyddoedd maith yn ôl, pan oeddwn yn y coleg, bûm yn canu mewn pedwarawd o’r oratorio Eleias gan Mendelssohn, a hynny yn Saesneg. Mi gofias y geiriau hyd heddiw: ‘Cast thy burden upon the Lord, and he will sustain you’ – dyfyniad o Salm 55. Ai dyna’r ateb i ni: bwrw dy faich ar yr Arglwydd? Crybwyll y pethau hyn oll yn ein gweddïau yn hytrach na gobeithio am ryw fan dall i ddileu’r cyfan o’r meddwl? Ie, mae’n siŵr, ond rhag fy ngwaetha, alla i ddim peidio meddwl wrth wrando ar weddïau cyhoeddus sy’n gwneud hyn mai ffordd arall i ni, Gristnogion, ddisgrifio ‘bwrw dy faich ar yr Arglwydd’ fyddai idiom Saesneg – ‘pass the buck’!

Gweddïo dros Gristnogion yn Affrica Is-Sahara

Y diwrnod y cafodd ei gŵr ei ladd, roedd Deborah yn cerdded i'r dref i brynu blawd Gwelodd rai dynion ifanc yn rhedeg tuag ati. "Mae rhywun yn ymosod ar y pentref!" medden nhw. "Mae eithafwyr y Fulani'n ymosod arnon ni!"

Wrth glywed y newyddion, trodd Deborah yn ei hól a dechrau rhedeg yn ôl adref, gan obeithio rhybuddio'i gŵr, Abel, am yr ymosodiad. Erbyn i Deborah gyrraedd y pentref, roedd y terfysgwyr yno'n barod. Ynddiweddarach, fe redodd Deborah i gae yd cyfagos a gorwedd yno nes iddi nosi. Yn nhywyllwch y nos, fe redodd i bentref arall. "Pan oeddwn i bron â chyrraedd yno, clywais ergydion gwn," meddai. "Fydd ein gŵr ddim yn goroesi," meddylodd, a dechrau crio.

Clywed newyddion ofnadwy

Llwyddodd i ddianc rhag yr ymosodwyr, ond collodd bopeth. "Ein heiddo, dillad y plant, cafodd y cwbl eu llosgi," mae hi'n cofio. "Cafodd ein gwartheg eu gyrru i ffwrdd. Roeddwn i'n gweddïo ar Dduw i'n helpu."

Drannoeth, fe ddychwelodd i'w phentref. Dywedodd un o'i chymdogion wrth Deborah fod ei gŵr, Abel, yn un o'r 31 o bobl oedd wedi'u llofruddio gan yr eithafwyr.

"Dwi wedi wynebu llawer o anawsterau ers i'm gŵr farw, gan gynnwys yr her o gael digon o fwyd i mi a'r plant," meddai Deborah. "Roedd fy ngŵr yn arfer gofalu amdana i a'r plant, ond nawr mae popeth yn disgyn ar f'ysgyddau i. Sut galla i ofalu am bopeth?"

Gofal trawma Open Doors

Rhoddodd partneriaid lleol Open Doors gymorth hanfodol iddi yn y tymor byr, yn ogystal â gofal trawma i alluogi'r credinwyr i wella a dyfalbarhau yn yr hirdymor.



GWEDDÏO DROS GRISTNOGION YN AFFRICA IS-SAHARA

GWEDDÏWCH

1. Mae Deborah yn gofyn: "Hoffwn i chi weddïo ar i Dduw roi'r cryfder i mi symud ymlaen mewn bywyd. Gweddïwch y byddaf yn parhau i gredu yn Nuw. Gweddïwch y byddaf yn cael fy mhrydau bwyd bob dydd. Gweddïwch na fyddaf byth yn anghofio Duw ac y byddaf yn parhau i ddilyn Iesu hyd y diwedd."
2. Gweddïwch y bydd mwy o lofnodion yn cael eu casglu yn nyddiau olaf ymgyrch *Arise Africa*, ac y bydd cyflwyno'r ddeiseb yn arwain at ganlyniad ymarferol a pharhaol.



"Roedd yr hyfforddiant trawma yn ddefnyddiol iawn o ran dod o hyd i heddwch ynof fi fy hun," meddai Deborah. "Fe wnes i ddod o hyd i'r cryfder i symud ymlaen â mywyd. Pan oedd pethau'n anodd arnom ni, doedd gynnwys ni neb i droi ato. Rhoddodd yr hyfforddiant gryfder, dewrder ac iachâd i ni."

"Dwi wedi dechrau gwella," ychwanegodd. "Does gen i ddim chwerwder yn fy nghalon, a dwi'n rhoi popeth yn nwylo Duw."

Ymgyrch Arise Africa

Dair blynedd yn ôl, lansiodd Open Doors ddeiseb o'r enw Arise Africa i sefyll ochr yn ochr â Christnogion yn Affrica Is-Sahara, lle mae 12 o Gristnogion ar gyfartaledd yn cael eu lladd bob dydd. Bydd y ddeiseb yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ac yna i'r Cenhedloedd Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a llawer o lywodraethau cenedlaethol. Y nod yw casglu miliwn o lofnodion ledled y byd erbyn 2 Tachwedd, a gyda llai na mis i fynd, mae bron i 870,000 o lofnodion eisoes wedi'u casglu.

Gweddï

1. Mae Deborah yn gofyn: "Hoffwn i chi weddïo ar i Dduw roi'r cryfder i mi symud ymlaen mewn bywyd. Gweddïwch y byddaf yn parhau i gredu yn Nuw. Gweddïwch y byddaf yn cael fy mhrydau bwyd bob dydd. Gweddïwch na fyddaf byth yn anghofio Duw ac y byddaf yn parhau i ddilyn Iesu hyd y diwedd."

2. Gweddïwch y bydd mwy o lofnodion yn cael eu casglu yn nyddiau olaf ymgyrch Arise Africa, ac y bydd cyflwyno'r ddeiseb yn arwain at ganlyniad ymarferol a pharhaol.

Gallwch hefyd lofnodi'r ddeiseb Arise Africa a'i rhannu â'ch eglwys, eich ffrindiau a'ch teulu.

<https://www.opendoorsuk.org/act/arise-africa/africa-petition/>



Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion: **Aled Davies:** aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | **Facebook:** CennadCymru | **X:** @CennadCymru
Cyhoeddir Cenn@d ar y cyd gan **Eglwys Bresbyteraidd Cymru** ac **Undeb Bedyddwyr Cymru**.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr Cenn@d yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** ar **01745 817584** neu **07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight** ar **0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.

